**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Craffu Perfformiad – Addysg

**O bell drwy *Microsoft Teams***

**Dydd Iau, 13 Mai 2021 am 4.00pm**

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd L R Jones (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | M Durke | S J Gallagher |
| D W Helliwell | B Hopkins | L James |
| S M Jones | M A Langstone | |
| L J Tyler-Lloyd | | |

| **Aelod(au) Cyfetholedig** | **Aelod(au) Cyfetholedig** | **Aelod(au) Cyfetholedig** |
|---|---|---|
| D Anderson-Thomas | A Roberts | |

**Hefyd yn bresennol**

| | |
|---|---|
| Jennifer Raynor | Aelod y Cabinet dros Wella Addysg, Dysgu a Sgiliau |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Helen Morgan-Rees | Cyfarwyddwr Addysg |
| Amanda Taylor | Pennaeth yr UCD a'r UCY |
| Brian Roles | Pennaeth Cynllunio ac Adnoddau Addysg |
| Louise Herbert Evans | Pennaeth y Tîm Cyfalaf, Cynllunio ac Adnoddau |
| Michelle Roberts | Swyddog Craffu |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd/wyr: A M Day

---

**1 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol**

Datganodd y Cynghorydd Susan Jones Gysylltiad Personol ar yr Agenda.

**2 Gwahardd Pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau’r Pleidiau**

Dim

**3 Cwestiynau gan y cyhoedd**

Ni chafwyd cwestiynau gan y cyhoedd.

**4 Y Diweddaraf ar Addysg Heblaw yn yr Ysgol (EOTAS)**

Daeth Aelod y Cabinet dros Wella Addysg, Dysgu a Sgiliau a Phennaeth yr Uned Cyfeirio Disgyblion (UCD) a'r Uned Cefnogi Ymddygiad (UCY) i gyfarfod y panel i roi’r diweddaraf ar y Gwasanaethau Addysg Heblaw yn yr Ysgol (EOTAS) a thrafod cynnydd.

- Mae'r gwaith o ailwampio gwasanaethau wedi bod yn llawer mwy na symud i adeilad newydd. Mae wedi cynnwys adolygiad trylwyr yn unol ag Argymhellion y Cabinet ac adolygiad llawn o bolisïau, systemau ac arfer gweithredol ar bob lefel i'w gwireddu. Roedd yr ailwampio'n cynnwys
- *Canolbwyntio ar nodi'n gynnar ac ymyriad priodol i gefnogi darpariaeth gyffredinol.* Adolygiad o Bolisi Ymddygiad Abertawe i ddarparu continwwm clir o gymorth i ddiwallu'r ystod o anghenion mewn perthynas â disgyblion ag Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol, Iechyd Meddwl ac Ymddygiad (SEMHBD). Datblygu a gwella'r Tîm Cefnogi Ymddygiad presennol i ddarparu cefnogaeth gynharach i ysgolion i wella gallu'r ysgol i ddiwallu anghenion disgyblion â SEMHBD a phenodi Seicolegydd Addysg i arwain ar fenter ELSA (Cynorthwy-ydd Cefnogi Llythrennedd Emosiynol) ar draws pob ysgol; athro arbenigol ar gyfer anghenion cymhleth i gefnogi ysgolion i ddiwallu anghenion disgyblion ag anghenion cymhleth. Anhwylder y Sbectrwm Awtistig (ASA) ac athro arbenigol ar gyfer ymddygiad i gefnogi ysgolion i ddatblygu strategaethau i gefnogi disgyblion â SEMHBD
- *Cyllid wedi'i ddirprwyo i ysgolion uwchradd i gefnogi disgyblion i aros mewn ysgolion.* £700,000 wedi'i ddatganoli i ysgolion uwchradd yn flynyddol i leihau atgyfeiriadau yn CA4 a (Gostyngodd lleoedd wedi'u cynllunio yn CA4 ar gyfer disgyblion ag Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol o 75 i 60). Nifer cyfredol ar y gofrestr (gan gynnwys y rhestr aros ar ôl cyfnod y cyfyngiadau) 40
- *Datblygu model adeiladu sengl i gynnal yr holl Ganolfannau UCD presennol yn Abertawe ynghyd â chydleoli gwasanaethau atal ac ymyrryd EOTAS a datblygu strwythur arweinyddiaeth glir.*
    - Adolygiad o gynnig TCY i ysgolion i wella darpariaeth gyffredinol
    - Adolygiad o'r Cynnig Tiwtora Gartref i ddisgyblion
    - Adolygiad o systemau a strwythurau sy'n bwydo i mewn i atgyfeiriadau EOTAS ar draws yr adran Addysg ehangach
    - Hunaniaeth newydd i'r UCD yn Abertawe – Maes Derw
    - Ailstrwythuro’r staffio ar draws y gwasanaeth yn llwyr
    - Arweinyddiaeth newydd yn ei lle
    - Trosglwyddo'r holl wasanaethau a disgyblion o safleoedd UCD blaenorol i Faes Derw ac eithrio Blwyddyn 11 ym Mrondeg
    - Datblygu ymagwedd therapiwtig/lles at gefnogi disgyblion ochr yn ochr â chynnig cwricwlwm mwy diddorol
- *Mwy o bwyslais ar ailintegreiddio yn ôl i ysgolion prif ffrwd.*
    - Adolygiad o 'gylch gwaith a diben' yr UCD i gefnogi ysgolion, teuluoedd a chydweithwyr yn y Gwasanaethau Addysg a’r Gwasanaethau i Blant a Theuluoedd i gael eglurder neu rôl yr UCD
    - Adolygiad o argymhellion y panel EOTAS er mwyn sicrhau craffu manylach ar leoliadau a phroses adolygu glir
    - Adolygiad o ddogfennau Atgyfeirio a Derbyn i sicrhau bod ysgolion a theuluoedd yn glir ynghylch y nod o ailintegreiddio a chefnogi mwy o berchnogaeth gan ysgolion

  - Model newydd o Dŷ Hanner Ffordd – Tŷ Canol – i weithio gydag ysgolion i ddarparu ymyriad dwys rhan-amser, tymor byr i gefnogi disgyblion sydd mewn perygl o fod yn EOTAS
  - Adolygiad o gyfleoedd i gefnogi disgyblion ôl-16 i drosglwyddo i AB neu gyflogaeth
- *Ymagwedd fwy cydlynol at weithio gyda phlant a phobl ifanc yr oedd angen gwasanaethau EOTAS arnynt, neu a oedd mewn perygl o fod angen gwasanaethau EOTAS.*
  - Adolygiad llawn o'r gefnogaeth les a ddarperir i ddisgyblion sy'n cael eu derbyn i'r UCD, gyda mwy o synergedd yn cael ei ddatblygu rhwng gwaith y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a'r UCD.
  - Datblygwyd Tîm Lles penodol ym Maes Derw i weithio'n agos gyda Chanolfannau Cymorth Cynnar y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd
  - Clustnodir gweithiwr allweddol i bob plentyn/person ifanc pan gaiff ei dderbyn i gefnogi'r plentyn/person ifanc a, lle y bo'n briodol, y teulu ehangach.
  - Datblygu partneriaethau gydag asiantaethau eraill fel y Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS), yr heddlu etc.
- UCD Maes Derw – cyfleuster UCD pwrpasol newydd sy'n rhannu'r un safle â Thŷ'r Cocyd, mae'n hwyluso gwaredu Brondeg a thir yn Ysgol Gynradd y Gors sy'n cynnal *Step-Ahead* ar hyn o bryd. Gwerth FPR7 cymeradwy £9.642 miliwn. Agorwyd i'r disgyblion cyntaf ym mis Chwefror 2021. Prosiect wedi'i gyflawni o fewn y gyllideb gymeradwy. Mae'r trosglwyddo wedi bod yn raddol i alluogi pob carfan i ymgartrefu. Nid yw disgyblion CA4 ym Mrondeg wedi symud i osgoi tarfu ar eu blwyddyn TGAU derfynol.

Anogwyd y panel yn fawr gan adeilad newydd Maes Derw a chyda'r holl waith a wnaed i adolygu a rhoi systemau a phrosesau ar waith a fydd yn gwella canlyniadau rhai o garfannau disgyblion mwyaf diamddiffyn Abertawe. Bydd y panel yn ysgrifennu at Aelod y Cabinet dros Wella Addysg, Dysgu a Sgiliau yn rhoi eu barn yn dilyn y drafodaeth.

## 5 Diweddariad - Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif

Daeth Aelod y Cabinet dros Addysg, Dysgu a Sgiliau, Pennaeth y Tîm Cyfalaf, Cynllunio ac Adnoddau Addysg a Phennaeth Cynllunio ac Adnoddau i'r cyfarfod i roi'r diweddaraf ar Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif yn Abertawe a thrafod cynnydd.

- Adolygwyd y rhaglen yn y cyfarfod a oedd yn tynnu sylw at y tymor hwy; ategwyd hyn gan fuddsoddiad cyfalaf arall a rhaglen cynnal a chadw strwythurol flynyddol. Mae Band A yn £51.5 miliwn ac mae wedi gwella 9 ysgol. Mae Band B yn swm llawer mwy, o £149.497, sy'n cael ei wario ar ysgolion. Cafwyd cyfnod trosglwyddo llyfn o A i B a'r gobaith yw mai dyma fydd yr achos pan gyflwynir Band C (er nad yw hynny'n hysbys ar hyn o bryd).
- Atgoffwyd y panel o'r gyfradd Ymyriad Cyfalaf (canran a delir gan Lywodraeth Cymru) o 65% o ysgolion prif ffrwd, 75% ADY (ysgolion arbennig/UCDau), Adeiladau Ysgolion y Model Buddsoddi Cydfuddiannol (MBC) 81% ac Ysgolion a Gynorthwyir yn Wirfoddol 85%. Clywodd cynghorwyr am y gwahanol ffrydiau ac am natur gymhleth y MBC.
- Dywedwyd wrth y panel fod y rhaglen Band B bron yn dair gwaith maint Band A a'i bod yn cael ei chyflwyno gyda llai o adnoddau ac er gwaethaf effaith COVID-19: cyfanswm y gwariant sydd wedi'i gyflwyno neu wedi'i neilltuo yw £54.8 miliwn (gan

gynnwys ysgolion Cymraeg a dosbarthiadau babanod). Bod datblygiad achos busnes manwl wedi'i wneud am £52.5 miliwn ychwanegol. Mae hyn yn cynrychioli 73% o gyfanswm y rhaglen (ac eithrio'r sector a gynorthwyir).

- Nifer yr ysgolion (allan o gyfanswm o 94) sydd wedi/a fydd wedi elwa o waith cynnal a chadw cyfalaf 1/4/2012 i 31/3/2019 (cyfnod Band A) yw gwaith Cynnal a Chadw Cyfalaf ar 89+ ac ysgolion â chyfanswm gwariant o £22.754 miliwn. Ac mae 1/4/2019 i 31/3/2022 (cyfnod Band B) yn waith Cynnal a Chadw Cyfalaf ar 63+ o ysgolion gyda chyfanswm gwariant o £14.374 miliwn.
- Mae wedi cynnwys yr adeiladau newydd yn Ysgol Gynradd Gorseinon, UCD Maes Derw, YGG Tan-y-lan, YGG Tirdeunaw. Estyniadau a gwaith arall yn YGG Gyfun Gŵyr ac Ysgol Gyfun Llandeilo Ferwallt.
- Mae'r gwaith Band B sy'n weddill yn cynnwys: Datblygu achosion busnes ar gyfer YGG Bryn Tawe, Ysgol Uwchradd Tre-gŵyr, ysgolion arbennig ac opsiynau sy'n cael eu cynnwys ar gyfer gweddill y rhaglen.
- Mae risgiau a phroblemau'r rhaglenni'n cynnwys: Gallu a gwydnwch o fewn y cyngor, gallu a gwydnwch y tu allan i'r awdurdod, risgiau ariannu posib, yn enwedig mewn perthynas â chyfalaf Llywodraeth Cymru, cyfraniadau datblygwyr ac ansicrwydd amseru.
- Mae gwaith i leihau maint dosbarthiadau babanod bellach yn cynnwys amlen ariannu o £1,919 miliwn: Ysgol Gynradd Penyrheol – ailfodelu mewnol i greu dwy ystafell ddosbarth, Ysgol Gynradd Hendrefoelan – estyniad ystafell ddosbarth sengl ychwanegol, Ysgol Gynradd Seaview – ailfodelu ac estyniad ystafell ddosbarth sengl ac YGG Bryniago - estyniad ystafell ddosbarth sengl, ar ôl cwblhau'r safle ym mis Hydref 2021
- Cyfrwng Cymraeg - estyniad i YGG y Login Fach i ddarparu dwy ystafell ddosbarth ychwanegol ac YGG Bryn-y-Môr - symud y caban dwbl presennol a gosod bloc pedair ystafell ddosbarth yn ei le.
- Mae safleoedd a nodwyd y Cynllun Datblygu Lleol yn cynnwys: Penllergaer, Pentre'r Ardd a Chefngyfelach.

Diolchodd y panel i'r swyddogion am eu gwaith caled wrth symud y rhaglen yn ei blaen yn effeithlon ac am gadw'r rhaglen ar amser lle bynnag y bu modd drwy gyfnod anodd COVID-19. Bydd barn y panel yn cael ei chynnwys mewn llythyr at Aelod y Cabinet dros Wella Addysg, Dysgu a Sgiliau.

## 6 Adolygiad o'r Rhaglen Waith Craffu ar Addysg 2020/2021

Derbyniodd y panel yr adolygiad o Raglen Waith Craffu Addysg 2020/2021.

Daeth y cyfarfod i ben am 5.50pm

**Cadeirydd**